# Y mesurau rhydd

**TINA CYFFION** Croeso i ‘Mesur Rhyddid’ gyda fi, Tina Cyffion, y rhaglen sy’n gofyn pa mor rhydd ydyn ni go iawn? Heddiw ry'n ni ym Mhentref Rhydd, yn Sir Gaer-rhyddid, I holi’r bobl sy’n byw yma, pa mor rhydd ydyn nhw.

Dwi gydag un o drigolion y pentref, Soned, a dyma hi yn canu’n rhydd. Dywedwch wrtha' i beth sy’n eich gwneud chi mor… rhydd?

**SONED** Y peth amlwg wrth gwrs yw fy mod i’n hollol ddigynghanedd, sy’n golygu y ca'i fod mor rhydd ag y mynnaf!

**TINA CYFFION** Felly rydych chi yn hollol rydd Soned… i wneud fel y mynnoch mewn bywyd?

**SONED** Wel, ydw dw i yn rhydd..., ond mi ydw i hefyd yn hoff o drefn... mae’n rhaid i fy wyth llinell gyntaf odli am yn ail ar batrwm A B A B, a phedair llinell gyntaf fy chwechawd hefyd yn odli ar batrwm tebyg, heb sôn am fy nghwpled olaf sydd wastad yn mynnu odli gyda’i gilydd. A dwi fel arfer yn gorfod cadw at deg sillaf i bob llinell. Ond ar wahân i hynny, dwi mor rhydd â phili pala!

**TINA CYFFION** Hmmm, dwi’n tybio fod hynny’n glir i bawb ei weld Soned. Symudwn ni ymlaen... Nesaf ar y rhaglen, byddwn ni’n cwrdd â phobl eraill sy’n honni byw yn rhydd... sef y gŵr a’r wraig, Mydr ac Odl.

Mydr ac Odl mae’n rhaid dweud, rydych chi yn gwpwl go arbennig, wel... Os taw dyna’r gair cywir, ond mae hynny’n fater arall.

**MYDR** Wel Tina, dim ond hanner y bartneriaeth ydw i.

**ODL** Rwyt ti’n llygad dy le, Mydr. Rydyn ni’n cwmpasu pob cerdd yn y byd sy’n odli.

**MYDR** Ti’n iawn fynna, os ydy e’n odli, ac yn ffitio i rythm pendant.

**ODL** Yna mae’n sicr yn rhywbeth at ein dant!

**TINA CYFFION** Anghredadwy yn wir Mydr ag Odl!

**ODL** Rydach yn llygad eich lle, Tina Cyffion, a’r peth gorau amdanom sy’n ein gwneud ni’n rhydd yw nad oes cynghanedd yn agos aton ni, i’n dal ni lawr mewn


© Hawlfraint 2016

| | |
|---|---|
| | cadwyni. |
| **TINA CYFFION** | Cadwyni? Argol! |
| **MYDR** | A'r peth mwyaf rhydd amdanom ni, yn fwy fyth na pheidio cynnwys cynghanedd lawn yn ein penillion, yw cael bod yn ba bynnag faint yr hoffwn ni. Weithiau ry'n ni'n fach iawn, yn ddim ond dwy linell, ac weithiau gall ein penillion ymestyn i fod yn fawr iawn, yn wyth llinell o hyd. |
| **ODL** | Wel cweit! Heb anghofio fod modd amrywio hyd llinellau i gynnwys amrywiaeth o sillafau. |
| **MYDR** | Ia ia. Rŵan ta, gwrandwch... rhyngoch chi a fi te, Tina, nid ni ydy'r rhai mwyaf rhydd yn y pentref 'ma. Mae 'na un, sy'n... hmmm... Sut ddweda i dwedwch? |
| **ODL** | Yn wyllt? Yn gwbl ddi-reolau? Wfft iddi. Gwers rydd ydy honno, Tina, a dydyn ni'n ddim byd tebyg iddi. Mae hi'n paredio rownd y lle 'ma'n... |
| **TINA CYFFION** | Wel Mydr ag Odl! Mae'n flin gyda fi ond mae'n amser ni ar ben. Mae wedi bod yn ddiddorol! Ond am nawr, ym... Cadwch eich hunain yn... yn rhydd! |


© Hawlfraint 2016